



### 1. Titw tomos las

Mae ganddo gap glas ac arno gylch



gwyn. Ei gynffon ac adenydd yn las a llinell wen ar hyd ei adain. Yn hoffi bwyta lindys, pryfed gwyrdd, ffrwythau, grawn a hadau.

### 4. Titw mawr

Mae yn fwy o faint na'r titw tomos ac mae ei ên ddu yn ymestyn fel streipen lydan ar hyd canol ei fol melyn. Cap brown tywyll a bochau melnaudd sydd gan y cyw. Yn hoffi bwyta lindys, pryfed, cynrhon, ffrwythau, pŷs a hadau. Ar y bwrdd adar mae'n hoffi pigo siwet a bara.



### 2. Titw cynffon hir

Aderyn bychan sydd â chorff crwn a chynffon hir fain yw hwn. Mae ei ben yn grwn a'i big yn fach iawn. Fe welwch resen ddu yn ymestyn dros ei lygaid at ei gefn



du. Yn hoffi bwyta pryfed, hadau a blagur.

### 5. Nico

Wyneb coch sydd ganddo pan mae'n llawn dwf, gydag ochrau ei ben yn wyn a llinell ddu ar ei war. Corff brown golau, bol gwyn, adenydd du. Yn hoff iawn o fwyta hadau 'nyjer', hadau ysgall, dant y llew a hadau coed. Mae cerdd enwog gan Cynan amdano.



### 3. Mwyalchen

Mae'r ceiliog yn ddu heblaw am ei big oren felyn a'r cylch melyn o gwmpas y llygad. Mae'r iâr yn frown tywyll a'i phig yn dywyll neu'n felyn. Aderyn Du yw enw arall. Yn hoffi bwyta ffrwythau a



hadau, mwydod a phryfed. Mae ei gân yn swynol iawn.

### 6. Aderyn y to

Stribynnau browngoch sydd ar gefn ei fron a'i fol yn llwyd. Mae'r iâr yn oleuach, yn frown melnach a rhimyn hufen llydan uwchben ei llygad. Yn hoffi bwyta hadau o bob math, pryfed a grawn.



Pryd?

Ble?

Pwynt

1 \_\_\_\_\_ 10  
2 \_\_\_\_\_ 20  
3 \_\_\_\_\_ 15

Pryd?

Ble?

Pwynt

4 \_\_\_\_\_ 15  
5 \_\_\_\_\_ 20  
6 \_\_\_\_\_ 10